Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 16. Rhif 8.] AWST, 1916. [Pris 2c

CYNWYSIAD

Myfyrdodau Mewn Hanfodion.
Hanes Capel y Cribin. Parch. J. Islan Jones, M.A.
"Hanner Can Pwynt Dros Undodiaeth."
Gair o For y Canoldir. Ben. Davies, R.A.M.C.
Llythyr Dr. Gwenggvryn Evans.
Y Tri Enw Mawr.
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.
Congl yr Awen.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

TALIADAU.

H.W.H., Pontsarn; Parch. E.D.P.E., Bury; D.D., Gwarcefel Arms; Parch. J.P.D., Nantwich; D.E.B., Llwyneimon; J.R.T., Pontshan; Mrs. D., Llansawel; Miss J., Riverside; Parch. J.H., Birkenhead; Dr. D.J.D., Aberystwyth; J.S.E., Aberdare; Parch. T.Ll.J., Lerpwl; D.D., Gwardafolog.

Geiriadur Newydd Spurrell

Cymraeg a Saesneg. Argraffiad Diweddaraf.

Dan olygiaeth J. BODVAN ANWYL.

Wedi ei helaethu a'i adnewyddu.

Pris 3/6 nett. - - Cludiad 3c. y copi.

I'W GAEL O SWYDDFA'R YMOFYNYDD, LLANDYSSUL.

CYFRES Y FIL.

Yn cynnwys y cyfrolau canlynol:—

GWILYM MARLES . .	IOLO MORGANWG . . .
MYNYDDOG	CERRIG Y RHYD . . .
ALUN	Dr. OWEN PUGHE . .
SION CENT	GWAITH GLANYGORS .

Pris Swllt. Trwy y Post 1/2.

I'W CAEL O SWYDDFA'R YMOFYNYDD, LLANDYSSUL

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."

CYFRES NEWYDD.] AWST, 1916. [CYF. XVI. RHIF 8.

MYFYRDODAU MEWN HANFODION.

YMAE dyn, yn ol addysg y Testament Newydd, nid yn unigolyn, un yn byw yn hollol annibynol, ond

UN SYDD YN AELOD O'R CORFF CYMDEITHASOL.

Y mae'r Apostol, yn wir, yn un man, yn cymharu cymdeithas i'r corff dynol. Gwneir y corff dynol i fyny o amryw aelodau; y mae i bob aelod ei ddiben; a pharha'r corff yn iachus cyhyd ag y gwna pob aelod ei waith ei hun yn effeithiol. Y mae i gymdeithas liaws o aelodau—y dynion a'r benywod sydd yn y byd. Y mae cyflwr iachus cymdeithas yn bosibl yn unig pan y gwna pob aelod ei ran yn ffyddlon. Os bydd un aelod yn esgeulus o'i ran, yn anwybyddu ei ddyledswyddau cymdeithasol, yn ceisio ei ddaioni ei hun yn unig, y mae'r corff cymdeithasol yn dioddef. Y mae dyn, yn ol Iesu, i gadw ei olwg i ddau gyfeiriad—i'w fywyd ei hun ac i fywyd cymdeithas; y mae i geisio ei ddaioni ei hun a daioni cymdeithas yr un pryd; y mae i edrych, nid ar ei eiddo ei hun yn unig, ond ar eiddo ereill hefyd.

DYMA REDIAD ADDYSG IESU—

yn enwedig yn nameg y Samariad trugarog. Pan lefarodd Iesu y ddameg anghymarol hon, fe gyffyrddodd ag un o linynau tyneraf y natur ddynol. Ac y mae meddwl mwyaf amlwg y ddameg, byth oddiar hynny, wedi apelio at ddynion a benywod, genhedlaeth ar ol genhedlaeth, gyda nerth a'u gyrrent i wneud a allent i liniaru dioddefaint dynol. Dyna un o nodweddau mwyaf dymunol hanes Cristionogaeth y deunaw canrif diweddaf—yr ymdrech i wneud cymeriad y Samariad yn fwy o ffaith yn y byd dynol. Wrth ddarllen hanes y cyfnod uchod deuaf i gyffyrddiad a llawer iawn o nodweddau annymunol. Wrth sylwi ar y rhai hyn, fe'm tueddir i ddweyd—"Yn sicr, nid oedd gan Gristionogaeth fawr ddylanwad ar y byd

dynol, onite fe wnelai y nodweddau annymunol hyn yn amhosibl." Yn wir, clywir siarad o'r fath hyn yn aml. Y dydd o'r blaen dwedodd cyfaill wrthyf fel hyn—

Y mae Rhywbeth allan o Le yn Rhywle

cyn y gallai y rhyfel presennol, gyda'i ganlyniadau erchyll, fod yn bosibl, Pa le mae eich Cristionogaeth? Paham na fuasai wedi ei rwystro?" O anwybodaeth, wrth gwrs, y mae siarad o'r fath hyn yn tarddu. Y mae yn tarddu o anwybodaeth mewn perthynas i ddyn. Nid creadur perffaith yw dyn; eithr creadur amherffaith. A chynnyrch yr amherffeithrwydd hwn yw'r drygau sydd yn anharddu ei hanes. Y mae siarad o'r fath ag y cyfeiriwyd ato, hefyd, yn tarddu o anwybodaeth parthed Cristionogaeth. Y mae Cristionogaeth yn hollol ddiallu i wneud dim o honi ei hun. Dim ond pan y mae dyn yn ei harfer y medr Cristionogaeth ddangos beth yw natur ei ffrwythau. Nid yw Cristionogaeth yn dod at ddyn, ac yn dweyd wrtho, "Fe'th orfodaf di i fyw fel yr wyf yn dweyd wrthyt." Nid oes gorfodaeth yn y mater o gwbl. Y mae Cristionogaeth yn dangos i ddyn y ffordd iawn. Ond y mae dyn at ei ryddid i'w dilyn neu beidio. Y mae yn naturiol iawn i ddyn, pan yn darllen hanes, a sylwi ar ei nodweddau annymunol, i ddweyd—nad yw Cristionogaeth wedi cael llawer o effaith ar y byd dynol; eithr, er mor naturiol ydyw, golwg arwynebol ar y mater yw'r olwg hon—golwg sydd seiliedig, fel y sylwyd, ar anwybodaeth. Y mae nodweddau annymunol hanes dynol, megis, y rhyfeloedd sydd yn ei anharddu, yn tarddu o galonnau dynion drygionus a llygredig, ac nid o galonnau wedi eu trwytho gan ysbryd Cristionogaeth Iesu. Edrychaf am effaith a dylanwad y Gristionogaeth hon, ac am y ffrwythau ddeillia o honi, nid i hanes brenhinoedd a llywodraethwyr rheibus a llygredig, ond i hanes y dynion a'r benywod ydynt, ym mhob oes, wedi llafurio, nid dros eu daioni eu hunain yn unig, ond befyd dros ddaioni ereill. Y mae'r hwn sydd wedi darllen hanes heb sylwi ar y nodweddau dymunol hyn wedi ei ddarllen gyda'i lygaid yn ddall i'r hyn sydd ragorol ynddo. Dyna

Un Nodwedd yn y Rhyfel Presenol

na all lai na llonni'r hwn a sylwa arno—yr ymgais glodfawr wneir i liniaru poen, i rwymo clwyfau, a achosir gan arfau dinystr. Un o'r rhyfeloedd mwyaf dinystriol mewn hanes yw hwn. Y mae'r wybodaeth berffeithiach sydd wedi dod i feddiant dynion wedi eu galluogi i ddyfeisio arfau mwy dinystriol nag a fu erioed o'r blaen. Ffaith druenus i'r eithaf yw hon—fod gwybodaeth yn cael ei throi i'r fath ddibenion barbaraidd—o fod yn angyles daioni i fod yn gyfrwng dinystr. Nid ar y wybodaeth y mae'r bai am hyn; mwy nag y mae'r bai ar Gristionogaeth fod rhyfel ar ddechreu'r ugeinfed ganrif yn bosibl o gwbl. Dynion sydd gyfrifol am y camddefnydd hwn o

wybodaeth; fel mai dynion sydd gyfrifol am y ffaith fod Cristionogaeth, mor bell ag y medrant hwy ei gwneud felly, yn lythyren farw. Os am weled ffrwythau Cristionogaeth Iesu, rhaid inni droi i gyfeiriad arall, megis, i gyfeiriad yr ymdrechion dyngarol wneir i weini i rai sydd yn dioddef. Ni fu erioed, yn un o'r rhyfeloedd sydd wedi blino'r ddynolryw,

Y Fath Lifeiriant o Gydymdeimlad a Thosturi.

Daw'r elfennau hyn i'r amlwg mewn gwahanol ddulliau, ac o wahanol gyfeiriadau. Braidd yr â diwrnod heibio na ddaw apeliadau o ryw fath neu gilydd atom am gefnogaeth. Y maent, yn wir, lawer rhy liosog iddi fod yn bosibl i'r mwyafrif o honom roddi iddynt y gefnogaeth a haeddant. Ond hyd yn oed os methir rhoi cefnogaeth iddynt i gyd, credaf mai ychydig iawn yw nifer y dynion nad yw'r apeliadau hyn yn cyffwrdd â llinynnau tyneraf eu bodolaeth, ac yn cyffroi eu cydymdeimlad. Ystyr hyn ydyw—fod Cristionogaeth Iesu yn allu yn y byd dynol—nad yw apeliadau ei addysg ac ysbryd ei fywyd yn ddi-effaith—nad yw ei aberth mawr dros les dyn wedi bod yn ofer. Nid yw, eto, y gallu yr hoffai pob un a gymer arno ei hun yr enw Cristion iddi fod; nid yw ei heffaith mor nerthol ag y dymunem; nid yw'r byd dynol gyda'i gilydd, eto, wedi dysgu gwir ystyr ei aberth i'r graddau sydd ddichonadwy. Ond y mae ei dylanwad yma, yn y byd dynol; daw ei hapeliadau adref i galonnau dynol fwy-fwy; y mae ei aberth yn esgor ar aberthau cyffelyb mewn bywydau dynol un oes ar ol y llall yn ddi-dòr. A dylai gweddi ac ymdrechion pob dyn a benyw a alwant eu hunain ar ei enw ef gael eu cyfeirio i'r un pwynt hwn—peri i'r Gristionogaeth hon fyned ar gynnydd.

Ellian.

YR HEDYN.

Yr Hedyn yw aer hudol—tywysen,
At eisiau hanfodol;
Duw, yn gain, geidw'n ei gol
Dwf a had y dyfodol.

Ar y grwn er troi'r gronyn—i'w oer fedd,
Marw i fyw mae'r Hedyn;
Gwena mewn glân eginyn,
Yn wyrth Duw i borthi dyn.

Pwy yw'r Awdwr?

HANES CAPEL Y CRIBIN.

(Gan J. Islan Jones.)

SEFYDLWYR YR ACHOS A'U TEULUOEDD.

(*Parhad.*)

Teulu Nanthenfoel.

Credaf i Samuel Davies, Nanthenfoel, ddod i gysylltiad a Chapel y Cribin tua'r un adeg ag Evan Jones, Crugmaen. Dywedir wrthyf ei fod yn flaenor a diacon, ond nis gwn am ba gyfnod. Bu i Samuel Davies dri-ar-ddeg o blant, ac yr oedd ei fab hynaf, David, yn aelod yn y Cribin a Chapelygroes. Symudodd Samuel Davies i fyw i Goedparc rywbryd cyn 1822, a chawn enw ei fab, David, fel aelod o Gapel Cilgwyn yn 1828, a dywedir iddo, y flwyddyn honno, droi yn *Ddwyf-Undodiad* (Lampeter, G.E.E., tud. 38).

Bu Samuel Davies farw yng Nghoedparc, ddechreu mis Tachwedd, 1855, a chladdwyd ef ym mynwent Llanfihangel Ystrad ar y 6fed. Dilynwyd ef yn Nghoedparc gan ei fab, Samuel Davies, a mab iddo yntau o'r un enw sydd yno heddyw.

Bu Herbert, y mab ieuangaf ond un i Samuel Davies, Nanthenfoel, yn byw ym Mhenlan, Capel St. Silin, am lawer o flynyddau, a bu am beth amser yn aelod yn y Cribin, ond, yn fy nghof i, Capelygroes oedd ei gartref crefyddol.

Teulu Tanrallt.

Yn gynnar yn y bedwaredd-ganrif-ar-bymtheg, yr oedd un o'r enw David Davies, ac Elizabeth ei wraig, yn byw yn Nhanyrallt, Cribin. Gwehydd oedd David Davies wrth ei alwedigaeth, a dyn gweithgar a pharchus, ac yr oedd yn aelod gwresog yn y capel.

Mab i'r ddau hyn oedd Reuben Davies (Reuben Brydydd y Coed), yr hwn a anwyd yn y flwyddyn 1808. Amcanodd ei rieni gyflwyno Reuben i'r weinidogaeth, a bu am gyfnod o dan ofal Tau Gimel, ac wedi hyny o dan y Parch. Rees Davies, yn Ystrad. Aeth i Goleg Caerfyrddin yn 1825, ond oherwydd afiechyd ni fu yn alluog i ddiweddu ei gwrs yno. Bu yn cadw ysgol am beth amser yn y Cribin, ac wedi hyny yng Nghilmaenllwyd, Sir Gaerfyrddin. Yr oedd yn Lladinwr da iawn, ond fel bardd, ac yn enwedig fel emynwr, y bydd iddo fyw. Yr oedd yn gyfaill i Ddaniel Ddu, yr hwn oedd yn edmygydd mawr o'i dalent. Yr oedd diffyg ym mharabliad Reuben: swniai y lythyren "s" fel "th." Bu farw ar ol cystudd caled iawn o'r dyfrglwyf, Ionawr 8fed, 1833, yn 25 oed. Claddwyd ef ym mynwent Dihewyd, ond nid oes dim i nodi'r fan lle y gorwedda, na neb yn alluog i ddweyd ym mha ran o'r fynwent y mae ei fedd.

Mae llawer o emynau Reuben yn y "Perlau Moliant," a'i holl weithiau barddonol yng ngofal y Parch. D. Evans, yn disgwyl am gefnogaeth i ymddangos drwy'r wasg.

Brawd i Reuben oedd Sylvanus Davies, Glanyrafon, ond nis gwn

fod neb o'r teulu yn y gymydogaeth heddyw,—y mae rhai yn ardal Cwrt-newydd.

TEULU SAMUEL JONES
(Sam Crydd).

Yr oedd Samuel Jones, a Sarah ei wraig, yn byw yn Shoemaker's Arms yn nechreu y bedwaredd-ganrif-ar-bymtheg. Nis gwn pa mor agos oedd ei gysylltiad a'r capel, ond efallai y gellir casglu rhywbeth oddiwrth y ffaith ddarfod i'w frawd, Evan Jones, fynd i'r weinidogaeth Undodaidd. Ganwyd Evan Jones yn y Cribin yn 1796 ; bu yn yr ysgol gyda'r Parch. John James yn Ystrad, ac aeth i Goleg Caerfyrddin yn 1814. Yr oedd yn bresennol, fel efrydydd ieuanc, gyda'r Parch. John James yng Ngellionen y Sul byth-gofiadwy hwnnw, Awst 18fed, 1816, pryd y ceisiodd yr Iawnffyddwyr gymeryd meddiant o'r capel (YMOFYNYDD Gorph. 1893).

Wedi gorphen a'r coleg, bu Evan Jones yn cadw ysgol o dan un o'r enw John Corrie, yn 1818 ; bu yn weinidog yn Hinckley, 1820—24 ; Bewdley, 1824—58, ac yn athraw yn ysgol Pearsall, Kidderminster, 1825—50. Yn 1858, drwy fod yn rhy garedig i gyfaill, aeth Evan Jones i dlodi, ac ymfudodd i'r Amerig, lle y bu farw. Efe oedd y cyntaf a godwyd i'r weinidogaeth yng Nghapel y Cribin. Nid oes neb o'r teulu hwn yn y gymydogaeth heddyw.

TEULU FRONFELEN.

Un arall o bileri'r capel, ddechreu'r ganrif ddiweddaf, oedd Abraham Thomas, Fronfelen. Enwir ef fel diacon a dechreuwr canu yn y capel un adeg. Ar ol byw yn Fronfelen am tua haner canrif, bu farw Mawrth 1af, 1853, yn 71 oed, ac ym mhen dau ddiwrnod bu farw ei fab, David, o'r ddarfodedigaeth. Claddwyd y ddau yn Llanwnen, yn yr un bedd, y dydd Gwener canlynol.

Merch i Abraham Thomas oedd Eleanor Davies, Drover's Road, Lampeter, yr hon a fu farw Mawrth 10fed, 1897, yn 89 oed. Merch arall iddo oedd Hannah Jones, Pencaeau Uchaf. Pencarreg, yr hon a fu farw Chwef. 21ain, 1909, yn 83 oed.

Dilynwyd Abraham Thomas yn Fronfelen gan deulu Undodaidd arall, sef Evan Davies (mab Pantcoch, Talgarreg, a chefnder T.T.) a'i wraig. Plant iddynt hwy yw Thomas a Martha Davies fuont fyw yn Fronfelen hyd yn ddiweddar, ond yn awr ydynt ym Mlaenberllan, Cribin.

(Pw barhau.)

"HANNER CAN PWYNT DROS UNDODIAETH."

31.—Iachawdwriaeth.

Cred Undodiaid fod iachawdwriaeth wir i'w chael mewn *perfleithrwydd cymeriad.* Nid lle mo'r nefoedd iddynt yn gymaint a stad neu gyflwr enaid. Ysprydol felly yw eu dychymyg hwy o iachawdwriaeth. Ni chynhwysir hi yn yr hyn sydd gennym neu y lle yr ydym, ond *yn yr hyn ydym.* Ac o weled nad oes un dyn yn berffaith yma, ni siaradant am undyn fel wedi'i 'achub.'

Y Testament Newydd ac Iachawdwriaeth neu Gadwedigaeth. —Daliwyd llawer tyb am gyfryngau (*means*) iachawdwriaeth. '*Bu Crist farw trosom*,' meddir. Daw'r frawddeg o'r Testament Newydd. Ond dylesid gwybod mai'r gair Groeg a ddefnyddir yw *huper*, a olyga 'ar ein rhan,' peth tra gwahanol i ddywedyd i Grist farw *yn ein lle*. Yn Philipiaid i: 29, darllenwn: 'Canys i chwi y rhoddwyd, *bod i chwi*, er Crist, nid yn unig gredu ynddo ef, ond hefyd ddioddef erddo ef.' Yn Colosiaid i: 24: 'Yr hwn ydwyf yn awr yn llawenychu yn fy nioddefiadau drosoch, ac yn cyflawni yr hyn sydd yn ol o gystuddiau Crist yn fy nghnawd i.' Nid oedd yr aberth ar y Groes yn gyflawn. Gelwir arnom ninnau hyd y mae ynom, ac yn unol a'n cyfleusdra i gymeryd rhan ym mhrynedigaeth y byd.

Marw'r Iesu.—Dywedir gan athrawon uniongred fod yr Iesu yn gwybod y rheswm am ei farw, ac iddo yntau wneuthur yr aberth yn wirfoddol am bechodau'r byd. Ond priodola'r Iesu ei farw i'w erlidwyr pan ddywed, 'O Dad, maddeu iddynt, canys ni wyddant pa beth y maent yn ei wneuthur.' Dysg yr Efengylau fod ei farw i'w briodoli i wendid, anghyfiawnder a chulni dyn, ac ni awgrymant fod ei eisiau er hyrwyddo cynllun iachawdwriaeth a ddyfeisiodd Duw. Os ydoedd wedi'i ragarfaethu neu'i ragdrefnu, ai ni ddylasem ddywedyd, Bendigedig ydych chwi, Judas a Philat, Annas a Chaiaphas, canys offerynau dwyfolddewisedig oeddech trwy ba rai y dug Duw oddiamgylch brynedigaeth y byd?

Gweithio allan eich Iachawdwriaeth.—Cred Undodiaid fod iachawdwriaeth yn dibynnu nid ar dderbyn credo ond ar fyw bywyd pur ac aruchel. Ni ddywedir wrthym yn un man yn y Testament Newydd fod eisiau *cymodi Duw a dyn*; ond fe ddywedir fod eisiau *cymodi dyn a Duw*. Amcan yr Iesu oedd ceisio cynorthwyo dynion i ddwyn eu meddyliau a'u calonnau i gydgord a'r bywyd Dwyfol. Dywedodd John Hamilton Thom: 'Y gweithio *ynom* yw rhan Duw; y gweithio *allan* mewn gair, gweithred, meddwl a chymeriad yw'n rhan ni.' Felly, nid rhyw orchwyl hunan-ddigonol fel y'i dangosir ar droion ydyw gweithio allan ein hiachawdwriaeth ein hunain. Ufudd-dod ydyw i'r hyn a noda Duw yn awgrymiadau ac anogaethau yr enaid a'r teimlad llywodraethol o Gywirdeb (*Right*). Ni ellir cael yr iachawdwriaeth hon mewn amrantiad—gwaith bywyd ydyw. Ni ofyn yr Iesu i ddynion beth gredant; dywed 'Canlynwch fi; byddwch fyw fel yr wyf fi yn byw; byddwch yn un a'r Tad megis yr wyf finnau yn un ag yntau.'

32.—Neges i Bechadur yn marw.

Gofynnir weithiau 'Pa neges sydd gan Undodwr i bechadur yn marw?' Tystiolaeth bersonol yw'r ateb gorau i ofyniad o'r fath.

Eisteddai gweinidog Undodaidd unwaith mewn ystafell gan siarad a dau weinidog Anghydffurfiol arall pan ofynwyd iddo fyned at wely dyn a arweiniasai fywyd neillduol o wael. Gofynwyd iddo ar unwaith, 'Beth sydd gennych *chwi* i ddwedyd wrtho?' Atebodd, 'Dywedaf wrthych a ddywedais wedi imi ddychwelyd? Wedi iddo ddod yn ol dywedodd fod y dyn oedd yn marw yn llawn dychryn a braw a ddeffrowyd ynddo gan yr hen uniongrededdd. Er tawelu'i feddwl, darllenodd y gweinidog Undodaidd ddameg y Mab Afradlon. Danghosodd mor rhwydd a llawen y croeshawodd y tad ei fachgen pechadurus adref, a cheisiodd wneuthur i'r dyn deimlo nad oedd angen iddo *yntau* ofni cyfarfod a'i Dduw y sydd yn Dad nefol. Nododd y gweinidog allan hefyd ymha fodd y derbyniodd yr afradlon gerydd; gwastraffodd ei fywyd, a rhaid oedd iddo ddechreu o'r newydd. Beth bynnag a hauodd y pechadur, rhaid fydd iddo fedi; beth bynnag a wastraffodd y mae

wedi golli ; eto nid oes eisiau i ddyn betruso na rydd Duw gyfle arall iddo ond iddo droi ato mewn yspryd edifeiriol a hyderus.

Yn y ffydd honno anogwyd y dyn oedd yn marw i wynebu angau mewn hyder, a chredu nad oedd y bywyd dyfodol heb gyfle i waredu ac urddasoli yr enaid dynol. Y mae hon yn ffydd grefyddol ddynol a rhesymol i'w chynnyg i undyn. Ym mhrofiad gwir cafwyd hi nid yn unig yn adgyfnerthol, ond hefyd yn gysurlawn i'r pechadur yn ei funudau olaf.

33.—Cosp Pechod.

Cred Undodiaid fod cariad Duw mewn cydgord a'i gyfiawnder ; ac i Paul lefaru'r gwir pan ddywedodd : 'Na thwyller chwi—ni watworir Duw ; canys beth bynnag a hauo dyn, hyny hefyd a fed efe.' *Beth a ddaw felly o'r Maddeuant Dwyfol?* Camddeallir hyn yn aml. Ceir pobl a dybia nad oes eisiau ond iddynt edifarhau y symud Duw ganlyniadau'u drwgweithredoedd. Nid hyn a olygai'r Iesu wrth faddeuant. Darllener dameg y Mab Afradlon. Derbyn y tad y llanc yn ol, ond ni ddychwel y gyfran a wastraffodd yn ystod ei fywyd ofer, ac ni eill wneuthur hyny. Dywed wrth y brawd hynaf, 'Yr eiddof fi oll ydynt eiddot ti ;' Gwariasai'r mab ieuaf ei gyfran. Golyga maddeuant y deil Duw gymundeb a ni eilwaith ond ini roddi fyny ein tueddiadau pechadurus. Cyn gynted ag y gad dyn ei ddrwg-weithredoedd, dechreua'r gwellhad yn ei natur foesol ac anianol.

COSPIR PECHOD.—Cospir yn drwyadl bob pechod naill ai yn y byd hwn neu ryw fyd arall. Y gosp a'r wobr fydd y cawn gychwyn y bywyd nesaf lle y terfynwn yn hwn. Cospir ni hyd yn oed yn awr am ein drwgweithredoedd. Er ein bod yn hollol anymwybodol o hono, y mae'n bywydau a'n cymeriadau'n wanach a thlotach oherwydd y drwg a wnelom. Cospedigaethau ereill yw'r poen o ddadwreiddio tuedd ddrwg a adawsom i dyfu'n arferiad, a chnoadau rydd cydwybod ini fel y mae'n bywhau.

Y MADDEUANT DWYFOL.—Un o'r cospedigaethau mwyaf am ddrwg yw'r meddwl *fod* Duw'n maddeu. Nid peth rhwydd ini yw derbyn maddeuant. Tybiwch fod gennych gyfaill a wnaeth dda i chwi, ac mewn eiliad o hunanoldeb gwnaethoch ryw weithred a'i colledodd yn fawr. Beth fuasai'ch teimladau pan ddoi a dywedyd, 'Ymdrechais i'ch cynorthwyo, ond dychweloch fy nghyfeillgarwch a gelyniaeth ; ond byddwch sicr, gyfaill, gwn i chwi ymddwyn yn groes i'ch hunan goreu, a maddeuaf i chwi.' Mor ofidus y teimlech oherwydd i chwi ddrygu cyfaill cyffelyb. Gofid tebyg a ymwel a ni yn sicr pan lefaro Duw o'i Gariad Anfeidrol : 'Gwn y cyfan, maddeuaf y cyfan.' Er llawenydd, ysgafnheir y gofid hwn pan glywom Dduw yn sisial yn yr enaid, 'Yr wyf yn llawen oherwydd iti ddychwelyd, fy mhlentyn.

34.—Y Pwnc o Weddi.

Cynnyg y pwnc o weddi fwy o anhawsterau i lawer dyn difrif nag un arall. Fel y taflant gipdrem tros hanes dynoliaeth, canfyddir y cynhelid llu o eneidiau santaidd drwy gymundeb â Duw. Ar y llaw arall, dywed Gwyddor y llywodraethir y bydysawd gan gyfreithiau, a hyd y gwyddom ni, gan gyfreithiau 'digyfnewid.' *Pa les, ynte, yw gweddi?* Pa un a ddilynwn, tystiolaeth hanes neu athrawiaeth gwyddor? Nid oes ddewis yma. Y mae'n gweddiau ni yn ddoethach nag eiddo'n tadau : y maent yn llai materol ac yn fwy ysprydol.

Y MAE'R EWYLLYS DDWYFOL YN BERFFAITH.—Canfyddwn *ni* y ffolineb o ofyn i Dduw fodloni'n dymuniadau ehedol neu'n anghenrheidiau diflannol. Ynddo ef nid oes 'gyfnewidiad na chysgod troedigaeth.' Oherwydd fod Duw yn berffaith, ni buasai unrhyw gyfnewidiad ond o'r perffaith i'r amherffaith. *Pwy a*

weddiai am hynyna? Y mae geiriau'r hen broffwyd yn gerydd difrifol i bob gweddi ryfygus: 'Pwy a gyfarwyddodd yspryd yr Arglwydd, ac yn wr o'i gyngor a'i cyfarwyddodd ef? A phwy yr ymgynghorodd efe, ie, pwy a'i cyfarwyddodd, ac a'i dysgodd yn llwybr barn, ac a ddysgodd iddo wybodaeth, ac a ddangosodd iddo ffordd dealltwriaeth?'

GWEDDIO AM BETHAU DIBWYS.—Canfyddwn yn fwy fwy yr afresymoldeb o ofyn i Dduw osod o'r neilldu y cyfreithiau trwy y rhai y llywodraethir y bydysawd. O ofyn am wlaw pan na bydd cymylau na gwlybaniaeth yn yr awyr gofynwn am ddiddymu deddf disgyrchiant. 'Buasai ychwanegu neu dynnu ymaith un mymryn lleiaf o wlybaniaeth yn gymaint gwyrth a phe disgwyliwn trwy weddi i hyrddio y Catskills i For Iwerydd.'

GWEDDI WIR.—Cwyd ein camdybiau oll o'n hanwybodaeth o beth yw gweddi. Nid archiad mo gweddi ond cymundeb â Duw, a'r awydd i wybod ei ewyllys. Ei diben yw nid cyfnewid Duw ond ni ein hunain. Y mae gweddi'n ddifudd oni phura ein dymuniadau ac urddasoli ein serchiadau. Canfydda y dyn da yn aml mewn gweddi na ddylasai'r pethau yr hiraetha fwyaf taer am danynt fod wedi'u dymuno ganddo erioed. Amcan gweddi yw effeithio cyfnewidiad mewnol yn ein tueddfryd a phuro a chryfhau'r ewyllys.

GAIR O FOR Y CANOLDIR.

Mae amryw faterion y carwn ysgrifenu arnynt er eu gosod o flaen darllenwyr YR YMOFYNYDD, er engraifft, medrwn ymhelaethu ar

HANES A RHAMANT YR YNYS,

a gosod mewn trefn amgylchiadau a digwyddiadau'r flwyddyn ddiweddaf. Ond mae'n rhaid i'r darllenydd foddloni ar ychydig nodiadau personol, ac aros nes delo rhyw law alluocach a mwy awdurdodol i roi yr helynt mewn trefn.

Credaf fod y bobl gartref yn hoff o glywed am ein teimladau a'n profiadau, a gwyliant a llygaid effro bob cam a gerddwn, a phob cyfnewidiad a ddaw i'n rhan. Ar y llaw arall, medraf ddyweyd fod delw yn nghalon pob un o honom, a darlun dychmygol o'r hen aelwyd a'r hen gysylltiadau a'r anwyliaid oll yn crogi mewn lle amlwg ar furiau ein hymwybyddiaeth, a dyheadau cryfion ar ran yr oll o honynt. Byddai rhai yn barod i'w alw yn 'hiraeth;' feallai nad yw hyn yn hollol anghywir; ond nid hiraeth ysbryd llwfr, ond delfryd i ddangos pwrpas ein gwaith, i gadw yn ddifrycheulyd urddas ac anrhydedd cartref. Mae cartref pob Cymro yn lle cyssegredig. Yr oedd gan ein cyndeidiau cyn Crist allor ar bob aelwyd, a chredaf nad yw sancteiddrwydd cartref wedi lleihau yn wyneb datguddiad uwch. Apel a gyrhaedda galon bob Cymro yw yr un a ddaw o'r aelwyd, ac i Gymro nid oes ond un cartref, sef Cymru. Mae swyn yn y gair a grym yn ei apel. Clywais am reng o Gymru ar adeg boethaf brwydr glaniad Suvla Bay yn neidio i'r rhuthr fel cewri. Pan oedd yr arweinwyr yn gwaeddi

'Fechgyn Cymru'

'roedd adlais Llewelyn a Glyndwr yn y frawddeg.

Mae bywyd milwrol yn ein dwyn i gyssylltiad a llawer iawn o bobl, a llawer o amgylchiadau tra gwahanol i'r arferol. Nid oes neb na fedr ddweyd nad yw bywyd milwrol wedi bod yn agoriad llygaid iddo. Cyfarfyddwn a chymdeithion o bob cwr o'r ymerodraeth yn llawn o deimlad brawdol at eu gilydd. Clywais lawer gwaith yn y *wards* ddadleuon brwd ynghylch rhagoriaethau y gwahanol wledydd. Byddai y New Zealander, yr Australian, y Canadian, y South African, a'r Maori, yn siarad am gyfleusderau ei wlad, ac y maent wedi llwyddo i danio dychymyg llawer o'u gwrandawyr o'r hen wlad. Ac nid rhyfedd os, ar ol y ffrwgwd bresenol, y gwelir lluaws o'n pobl ieuainc yn ymfudo. Mantais fawr yw dyfod i gyssylltiad a phob braich o'r fyddin, a bechgyn o bob cwr o'r wlad. Mae syniad cyffredin Cymro am Ysgotyn yn seiliedig yn rhy fynych ar y direidi wneir ar ei gulni arianol yn y papurau arwynebol, ond mae troi yn eu mysg yn profi eu bod mor agored a thwym-galon a'n cyfeillion goreu. Mae y papurau hyn hefyd yn ein harwain i gredu mai pobl wyllt, ansefydlog, yw y Gwyddelod, ond mae mwyafrif mawr y rhai gyfarfyddais yn fechgyn sobr a sefydlog, ac mewn poen calon yn ystod y digwyddiadau truenus yn Dublin. Mae adnabyddiaeth bersonol a chymdeithas yn gwneud i ffwrdd a'r culni a'r annealldwriaeth sydd rhwng pobl a'u gilydd.

Rhan fynychaf yn y *wards*, synnai'r ymwelydd wrth weled pethau mor llawen, ac hyd yn oed rhai mewn perygl o'u bywyd yn gwisgo arddangosiad calonogol. Nid yw yn anhawdd bod yn llawen mewn ysbytty, yn enwedig pan mai Prydeinwyr yw y cleifion. Nid oes na chlwyf na chlefyd yn medru gosod ffrwyn ar eu ffraethder. Mae pob un o honynt yn herio wrth y meddyg ei fod yn barod i godi ac i fyned i'r *convalescent camp*, hyd yn oed pan y mae yn methu symud. Clywais lawer o honynt yn grwgnach am y tybiai ei fod yn cymeryd gwely oddiwrth rhywun mwy anghenus. Mae yn barabl diddiwedd rhyngddynt a'u gilydd a'r *nurses*, yn y *wards*. Mae ganddynt ddigon i ddifyru eu hunain drwy ddarllen a chwareu yn mhebyll y Y.M.C.A. i'r rhai fedrant gerdded ychydig. Tua'r nos, pan mae'r cysgodau'n disgyn, mae'r meddwl yn tynnu tuag adref ar aden dychymyg, a phryd hyny clywir hwynt yn siarad am eu hanwyliaid, ac yn dymuno am gael eu gweled eto. Siaradant fel hyn am rinwedd eu gwragedd neu eu mamau nes bod clustiau y rhai hyn yn y cartref yn goch, a dim ond adlais nodau diweddaf y "Last Post" yn yr uchelion a rydd daw ar yr hyawdledd.

Mae llawer o'r cleifion mwyaf tost yn myned adref i Brydain, ac O! 'r balchder sydd pan y clywant eu bod i fyned. Maent yn addaw galw gyda chyfeillion eu cyd-gleifion, ac ysgrifenu, &c. Cofiaf un digwyddiad digrif, pan yr oedd llawer yn dioddef oddiwrth dwymyn yn myned adref, 'roedd y meddygon yn nodi C.E. wrth enw pob un oedd i fyned adref—dynoda C.E., '*Convalescent, England.*' Mae enw crefydd pob un wrth ei enw hefyd, a dynoda C.E. '*Church of England.*' Wrth fyned i gymeryd cyfrif pwy oedd i fyned, ac edrych am y nod C.E., camsyniwyd fel y cymerwyd pob un oedd a C.E., *Church of England* wrth ei enw. Roeddent i gyd ar fedr mynd i'r *Hospital ship* pan welwyd y camsynied. Bu hyn yn destun chwerthin am ddiwrnodau.

Pan oedd y frwydr boethaf yn Gallipoli, a'r tywydd a'r gwaith boethaf yma, cofus gennyf i luaws o Gymru ddyfod i fewn i'r ysbytty o'r un llong. Nid oeddwn wedi siarad ond eithriad i air o Gymraeg er's chwe' mis, a dim am ddau fis. Pan ddaeth tyrfa fel arfer o gleifion, fy ngwaith arbennig y boreu hwn oedd cymeryd manylion am danynt, eu henwau, a'u rhengoedd, er mwyn

rhoi gwybodaeth i'r awdurdodau a'u cyfeillion am danynt. A'r cyntaf a ddaeth ymlaen oedd bachgen a siaradai Seisneg digon arbennig i mi wybod mai Cymro oedd, a dyma fi yn siarad Cymraeg llydan darllenwyr yr YMOFYNYDD ag ef.

Yr oedd yn falch gweled Cymro a chlywed am gartref. Yn nes ymlaen cyfarfyddais â hen gyfaill oedd yn y Coleg Normalaidd yn Nghaerfyrddin pan oeddwn i yn y 'Presbyterian College.' Yr oeddynt wedi gadael cartref ar fy ol i, ond yr oedd mwy o gyfleusderau clywed newyddion yma nag ar y Peninsula. Yr oeddwn yn frysiog iawn yr adeg hono, ond trwy frysio mwy medrais weled pob un o honynt. Yr oedd y rhan fwyaf o honynt o Sir Gaerfyrddin, ac er eu poenau yr oeddynt yn teimlo'n falch cael gair o Gymru. Gwelais bron pob un o honynt yn myned adref i gael triniaeth bellach. Erbyn hyn maent wedi dweyd yr hanes wrth eu teuluoedd gartref, a hwythau eto yn dal eu tir mewn rhyw gŵr o'r llinell eang. Llwyddiant iddynt, ddewraf fechgyn Cymru. Da fyddai gan Llewelyn i weled eu dydd.

Fel arfer mewn rhyfel, gorwedda llawer Cymro mewn gwlad ddieithr, a daear arall na'r hon a'u mhagodd yn derbyn yr hyn oedd farwol o honynt. Yr oedd un swyddog ieuanc Cymreig yn cael ei gludo i'r erw sanctaidd—peth digon cyffredin yr amser hwnw,—ac yr oedd cydymdeimlad pob un dros ei berthynasau; ond i Gymro arall yr oedd yn ofid calon gweled plant goreu'r wlad, cynnyrch goreu ei phrifysgol yn syrthio'n aberth er mwyn ein rhyddid. Pruddaidd, onide? Ond gadawer yr ochr leddf—mae haul tu ol i'r cwmwl bob amser.

Difyr oedd clywed ymgom rhwng dyn ag un fraich ac un arall ag un glun. Tra yr oedd un arall oedd wedi colli braich yn dadleu a'r meddyg dros fyned yn ol i'r maes, er mwyn cael *sporting chance* i golli llygad, er cael bod yn debyg i Nelson.

Maent wedi aberthu llawer, bydded y wlad yn barod i wneud cyfiawnder a'r rhai hyn. Aberth cymaint ni fedr wneud, ond medr wneyd llawer er mwyn ysgafnhau eu baich. Niwlog ac ansicr yw dyfodol y dewrion hyn, ac nid bach yw eu pryder oherwydd hyny.

BEN DAVIES, R.A.M.C.
(Gynt o Goleg Caerfyrddin).

(I'w barhau.)

LLYTHYR DR. GWENOGVRYN EVANS.

Buasei yn dda gennyf fod yn bresenol yn Alltyblacca yforu, oblegid un o'r pethau henaf yn vyghof yw y dydd Sul y penodwyd Mr. Davies yn escob ar yr achos. Gwnaeth i ddyfrifoldeb ar ddiwedd y gwasanaeth argraff ddwfn arnaf. Rwyf wedi anghofio beth wedodd, ond anghofia i byth ddim oi edrychiad. Yr oedd yspryd y petheu uwch yn siarad yn eglurach yn i wyneb nac ar y dafod. Pwy all ddweyd faint yw dylanwad cynhyrfiadeu yr yspryd ar feddylieu sydd a'r flaguro. Nid ffraethineb, ond dyfrifoldeb a bloescni calon lawn sydd yn dylanwadu arnom. Mae y pregethwr lawer tro yn caboli petheu gwychion, ac yn codi i lais yn rhod-

resgar yn y pwlpid, yn gystal a dweyd "ond ŵ *i* yn ddyn mawr?" Druan ac e! Mae mwy o wynt nac o efengyl yn i gennadwri. Bryd arall mae dan ddylanwad profedigaeth bywyd—rhyw amgylchiad torcalonus yn i feddiannu fel nas gŵyr yn iawn beth lefara. Dyna'r amser y llithra meddylieu dyfnaf i feddwl dros i wefuseu yn syml nes teimla pawb wirionedd i dystiolaeth. Dyna'r rheswm pam mae y pregethwr mor amal yn methu deall effeith i gennadwri. Mae yn gwneyd i oreu, ac mae'r cynnulliad yn mynd yn lai-lai; yna cymyla i fywyd, coll i gred yn i bregetheu mawr, a sierid yn syml o galon lawn, a thywyna yr heul drachefyn. Mae trai a llanw hefyd yn perthyn i gynulleidfa, ac mae'r fath beth ar '*foot-rot*' yn perthyn i ddefeid y bugeil goreu; a pho fwyaf y '*foot-rot*' mwya i beio ar y gwenidog. Pe bai yr archangel Gabriel ehun yn discyn yn llawer pwlpid ni wnai gau i adenydd wrth fodd 'pobol fowr' y gynnulleidfa. Tebyg y medrei Mr. Davies siarad yn groyw ar bycieu fel yna. Ond y peth mwyaf cudd ymywyd y pregethwr yw faint o ddaioni mae ef wedi wneyd—faint or hadeu da sydd wedi egino ac yn dwyn ffrwyth, mwy nac y meddylia llawer. 'Rwyf fi yn cofio dau sylw o eiddo Mr. Davies yn dda, ac mae hanner can mlynedd er pan glyweis y rheiny. Dyma nhw: 'Fedrith neb stoppo'r fran i ddiscyn ar i ben, on fe fedrith pawb i rhwystro i wneyd i nhyth yno. Mae meddylieu drwg yn crwydro yn mhob ardal fel y brain, ond yn gofal ni yw eu rhwystro i wneyd eu nhyth yn yn calonneu.' Dyma'r llall: 'Mae dynion respectabl yn barticlar iawn i gadw eu haddunedau i'w cyd-ddynion, ond beth am yr addunedeu wnant i'w Tad nefol? A ydynt mor barticlar i gadw y rhai hyn?' Dyna sylw sydd yn mynd dan wraidd crefydd—*the sense of honour that keeps its pledges to God*, Nis gwnn i am ddim sydd wedi dylanwadu gymeint ar vy mywyd fy hun. Tebig nas gwyr Mr. Davies ddim i'r hedyn yma wreiddio, a ffrwytho ymywyd un oi ŵyn i hun. Tâl y wenidogaeth yw ambell i gyffesiad or fath yma. Pan mae'r pregethwr yn anghofio i ddawn ac yn cofio y gwirionedd nid oes achos iddo bryderu am ddylanwad i wenidogaeth. Mae un sylw da mywn pregeth wael yn werth yr holl 'bregetheu matches' a glywir yn y 'cyrddeu mawr' a'r sassiwneu. Nid dawn dyn ond dawn Duw a'r gwirionedd sydd yn effeitho purdeb meddwl a chalon, ac yn gweitho allan iechydwrthiaeth perein ar i daith ir wlad well.

Yr wyf yn cyfarch gwell ir hen frawd ar derfyn i escobaeth. Mae wedi llafurio yn hir ac yn ddyfal. Mae wedi bod yn fugeil ffyddlon, parod i gymwynas a thosturi ymhob caledi. Ac ni fu cyfeill cynhesach i fynwes. Boed i nerth yn ol i ddydd, ai ffordd yn rhwydd hyd ddiwedd i daith. Yna goreured Duw y gorllewin iddo ymachludiad i haul ar i fynediad i ffrwyth i lafur.

Yr eiddoch,

GWENOGVRYN.

[*Darllenwyd yr uchod yn nghyfarfodydd Alltyplaca a Chapelybryn ar achlysur cyflwyno Tysteb i'r Parch. John Davies ar ei ymddeoliad o'r weinidogaeth.*]

Y TRI ENW MAWR.

Wrth fwrw golwg dros y byd Cristnogol, a sylwi ar enwau'r eglwysi, yr enwadau a'r symudiadau crefyddol a wynebir genym, nid anhawdd canfod fod yna dri enw sydd o ran mawredd a phwysigrwydd ystyr yn codi yn mhell uwchlaw y rhai eraill i gyd. Y tri hyn yw y Gatholig (nid y Pabyddol—dwg hwnw i fewn elfen leol a chyfyngedig), yr Universalist a'r Undodaidd. Dyna'r enwau mwyaf ac ardderchocaf, am eu bod yn gyfystyr a'r pethau mwyaf posibl yn nghorff a chymdeithas y bywyd crefyddol, hyny yw—Catholiciaeth, Universaliaeth ac Undeb. Mantais yr enwau hyn yw eu bod yn hollol gadarnhaol, hollol anymhongar (*undogmatic*), hollol ansectarol, hollol ysprydol, i'r graddau pellaf posibl yn amgylchol (*inclusive*), ac nad pa gymaint bynnag y dichon cynnydd y dyfodol fod, ni allant gael eu gordyfu na'u gadael ar ol.

Fe allai nad oes modd gweld mawredd cynhenid yr enwau hyn yn well na thrwy eu cymharu a'u cyferbynu ag eraill sydd yn gyffredin o'n hamgylch. Mae'n syndod meddwl fod y rhan fwyaf o'r enwadau Cristnogol wedi derbyn eu henwau, nid oddiwrth y gore a'r dyfnaf yn y ffydd a broffesant, ond oddiwrth rywbeth hollol amgylchiadol ac arwynebol; nid oddiwrth sylweddion eu crefydd, ond oddiwrth y pethau damweiniol. Felly, cawn amryw o'r enwadau mawrion wedi eu henwi oddiwrth y ffurf neillduol o lywodraeth eglwysig ag y maent wedi ddewis iddynt eu hunain (Presbyteriaid, Cynulleidfaolwyr, Annibynwyr, Episcopaliaid), fel pe byddai hyny y peth mwyaf sylweddol, er mwyn yr hwn y mae'r cyfryw gyrff o Gristnogion yn bodoli; eraill oddiwrth ryw ddefod syml allanol (Bedyddwyr), fel pe byddai'r ddefod allanol i'w dyrchafu uwchlaw bywyd mewnol; eraill oddiwrth ryw ddigwyddiad yn eu hanes, fel y Methodistiaid oddiwrth yr amgylchiad fod Wesley a'i gyfeillion yn Rhydychen wedi dwyn trefn (*method*) i mewn i'w gwaith crefyddol; ac eraill eto oddiwrth ryw arweinydd enwog, megys Luther, Calfin, Wesley, fel pe byddai'r dyn neillduol a ddysgodd ryw ffurf o ffydd grefyddol o fwy pwys na'r ffydd ei hunan.

O'u cymharu a'r cyfryw fath o enwau, damweiniol, arwynebol, ac ysgarol o angenrhaid, mor ardderchog yw ini allu droi at yr enwau hyny nad oes un awgrym ynddynt o'r arwynebol a'r ysgarol, ond ydynt, fel yr enw Undodydd, Universalydd, neu Gatholig, yn dynodi'r pethau dyfnion, holl-gofleidiol, allanol, y byd moesol ac ysprydol! Nid gormod dweyd nad oes gan y ffurf o grefydd sydd yn mynd dan un o'r enwau mawrion hyn, ond bod yn ffyddlon, ac yn gyson—yn ffyddlon i'w ystyr ddyfnaf—i ddyfod, yn gynar neu yn ddiweddar, yn sicr yn grefydd y dyfodol.—J.T.S.

MARWOFION.

Mehefin 14, yn 89 mlwydd oed, Henry Joues, Laurel Cottage, Pontardawe. Yr oedd yr ymadawedig ym mlaen ym mhell yn y rheng o bobl oedranus, ac yn un o'r rhai hynaf yn y cylchoedd. Buom yn ei gwmni droion, a dygodd adgofion difyr boreu ei oes ger ein bron, nes teimlo o honom y cyfnod pell yn fyw o'n blaen. Bu yn ddall am beth amser, ond agorwyd ei lygaid ar fyd nad oes dellni o'i fewn. Cafodd

fywyd iach bron hyd y diwedd. Cymerodd ei angladd le y Llun dilynol, a chladdwyd wrth Fethania, Clydach. Darllenwyd yn y tŷ cyn codi gan y Parch. D. G. Jones, Soar, Pontardawe. Pregethwyd yn y capel gan y Parch. T. V. Evans, Calfaria, Clydach, a chafwyd gweddi ar lan y bedd gan y Parch. D. G. Rees, Gellionen a'r Graig. Caffed y galarwyr oll nerth a gwenau Ior y byd i gysuro eu hunain yn y gobaith fod y wlad well a'i phyrth led y pen, ac y cânt eto gyfarfod a'r hwn sydd wedi blaenu. 'Heddwch i'w lwch.'

MEHEFIN 19, David Tom, baban Evan a Margaret Davies, Ysgolddu, Talgareg, yn 3 wythnos oed. Cydymdeimlir yn fawr a'r rhieni. Dechreu Mai diweddaf collasant blentyn o'r blaen geneth fechan ddwy flwydd oed. Claddwyd yr lau canlynol yn Bwlchyfadfa. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins.

MEHEFIN 22, cludwyd Mr. F. W. Lewis, yn 27 oed, mab henaf Mr. Richard Lewis, 21, Llanfoist St., Ton, Pentre. Claddwyd yn nghladdfa Gyhoeddus Treorci. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. E. R. Dennis. Sicr yw fod pawb a edwyn Mr. Richard Lewis mewn cydymdeimlad dwfn ag ef yn ei ofid blin.

'Colles y rhai a geres fwya,
Ber yw byr oes, marw heb hiroes
mae y rhai pura.'

GORPHENAF 1, Hannah, anwyl ferch John a Jane Davies, Criborfawr, Llandyssul, yn 24 oed. Gadawodd mewn galar dwys ar ei hol dad, mam, brodyr, chwiorydd, a nifer luosog iawn o berthynasau ereill a chyfeillion. Mawr a dwfn yw y cydymdeimlad fynwesir tuag at y teulu gan eu cyfeillion a'u cydnabod. Wrth ei cholli hi collodd y rhieni ferch ufudd ac anwyl iawn, a'r brodyr a'r chwiorydd chwaer siriol a diddan. Y nef a'u cynorthwyo yn eu profedigaeth, a megys eu dyddiau boed eu nerth. Collodd eglwys Llwynrhydowen hefyd aelod ffyddlawn a gweithgar. Bydd ei lle yn wag yn yr Ysgol Sul, yr Ysgol Gân, a'r addoliad. Yr oedd y Llwyn a phobpeth perthynol i'r Llwyn wedi cael lle dwfn yn ei serch, a chredwn fod gwasanaeth crefyddol a chymanfa yn anwylach ganddi na nemawr i ddim. Colled fawr i eglwys ydyw colli aelod ffyddlawn, diddig a gwasanaethgar. Geneth dawel, hynaws a siriol oedd Hannah; un o rodiad prydferth ac un a berchid yn fawr gan ei chydnabod. Blin yw meddwl ein bod wedi ei cholli, ac na chawn ei chwmni yma byth mwy; ar y llaw arall, mor gysurlawn y meddwl 'cawn gwrddyd yn y nef.' Claddwyd y Mercher canlynol yn Llwynrhydowen. Yr oedd y cynhebrwng yn un rhyfeddol o fawr. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins, yn cael ei gynorthwyo gau y Parchn. John Davies, D. Evans, T. A. Thomas, L. Williams, a T. O. Williams.

'Dyner Dad, datguddia werth,
Stormydd bywyd.'

GORPHENAF 2, yn 63 mlwydd oed, Gwen Jones, Pentrehywel, Trebanos. Wele eto fam ddu, dirion, wedi tewi yn angau. Bu yn gymydoges fwyn a hawddgar, barod a gonest. Blaenodd ei gwr hi flynyddoedd meithion yn ol, a dychmygwn ei glywed yn awr yn croesawu ei gydmar anwyl i mewn i'r 'porfeydd gwelltog.' Hytrach yn wanaidd ydoedd iechyd ein gwrthddrych yn hyd blynyddoedd diweddaf ei bywyd. Gorphenodd ei gyrfa yn dra sydyn ar ddydd o Sabboth Duw—

'A melus oedd esgyn i fryniau'r nef
Tra plant y Sabbothau'n ei foli Ef.'

Y dydd Mercher cyfisol, rhowd ei phabell i orwedd ym mynwent y Tabernacl, Trebanos. Gweinyddwyd gan y Parch. D. G. Jones, Soar, Pontardawe, y man y bu hi yn aelod selog am dymor maith. Cafwyd gweddi yn y capel gan y Parch. H. Jones-Davies, (W.), Pontardawe,

ynghyd ac offrymiad o weddi ger y beddrod gan y Parch. D. G. Rees, Gellionen a'r Graig. Deallwn fod chwaer i'r ymadawedig yng Nghellan, a brawd yn Iowa, Amerig ; ac y mae dwy ferch wedi eu gadael ar ol i alaru, nid fel rhai heb obaith. A'r cysur goreu gânt yn y byd fydd dilyn yn olion eu mham, yr hon fu gymaint ei gofal am danynt.

GORPHENAF 3, claddwyd gweddillion marwol Mrs. Elinor Davies, Castle Hotel, Caerfyrddin, yn 59 oed, mam y Parch. T. Eric Davies, Pontypridd. Perthynai Mrs. Davies i linach y Parch. Thomas Evans, un o weinidogion Hen Dy Cwrdd, Aberdar. Gweinyddwyd gan Proff. J. Oliver Stephens, B.A., B.D., a chynorthwywyd ef gan y Parchn. E. T. Evans, ac E. R. Dennis, Aberdar. Claddwyd ym mynwent Heol yr Undeb, Caerfyrddin. Mae gan eu cyfeillion gydymdeimlad mawr a'r Parch. T. Eric Davies, a'r ddau frawd a'r chwaer sydd ar ol, yn eu galar trist. Bellach y maent yn amddifaid, a chyflwynwn hwynt i ofal y Tad gore.

GORPHENAF 4, yn bymtheg diwrnod oed, bu farw Anne Mary, baban M. Jones, Cwmawr. Claddwyd y dydd Iau canlynol ym mynwent Capel-y-Bryn. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. T. O. Williams.

> 'Siwrnai fer, os ofer oedd,
> Siwrnai ofer sy' i'r nefoedd.'

GORPHENAF 20, yn 41 mlwydd oed, Ann Jones, merch Mr. David Jones a Mrs. Jane Jones, Tydwgi, Llanwnen. Parodd marwolaeth yr ymadawedig syndod i lawer gan nad oedd ond ychydig amser er pan yr oeddynt wedi ei gweled yn ymddangos yn iach a chryf. Dioddefodd yn ddrwg am fyr amser oddiwrth ddolur mewnol. Ar awgrym ei mheddyg awd a hi i Ysbytty Aberystwyth er gweled a allasai dderbyn lles yno drwy fyned o dan weithred law-feddygol. Gwnaed y weithred, ond nid oedd modd dwyn adferiad iddi, a bu farw yn mhen ychydig ddyddiau. Yr oedd yn perthyn iddi amryw o rinweddau ag oedd wedi ei gwneyd yn barchus iawn yn mhlith ei chydnabod. Yr oedd yn nodedig am ei thymher siriol a'i hysbryd caruaidd, a'i pharodrwydd i wneyd daioni. Wedi bod yn gwasanaethu mewn amryw o fannau lle yr enillodd iddi ei hun 'air da,' daeth adref oherwydd fod iechyd ei mham yn wanaidd. Bu yn dyner iawn tuag at ei mham, ac y mae y golled ar ei hol yn fawr iawn. Yr oedd yn aelod o eglwys Alltyplaca, ac yn meddu ar ewyllys barod i wneuthur pob peth a allasai tuag at gynorthwyo yr achos yno. Cydymdeimlir yn fawr a'i rhieni, ac a'i brawd a'i chwaer, a'r perthynasau agos eraill, yn eu profedigaeth lem, a chaed amlygiad o hyny yn y dorf fawr a ddaeth yn nghyd ar ddydd ei hangladd, y Llun canlynol. Gwasanaethwyd yn y tŷ ac yn y capel gan y Parch. L. Williams, ac ar lan y bedd gan y Parch. J. Davies.

MANION AC HANESION.

ADRAN YR YSGOL SUL.—Derbyniwyd oddiwrth Ysgol Sul, Capelygroes, 7s. 2c. Dymunwn adgofio yr ysgolion canlynol nad ydynt wedi danfon casgliadau eleni eto—Graig, Llandyssul ; Pantdefaid ; Cefncoed ; Ciliau Aeron.

LLWYDDIANT.—Y mae yn bleser mawr genym longyfarch Mr. Priestley Phillips, mab y Parch. W. J. Phillips a Mrs. Phillips, y Nottais, ar ei waith yn graddio yn Mhrifysgol Victoria, yn y dosparth blaenaf gydag anrhydedd. Bwriada Mr. Phillips, ar ol cwrs Duwinyddol yn Athrofa yr Home Missionary, fyned i'r weinidogaeth Undodaidd. Llwyddiant mawr a'i dilyno eto.

CAPELYGROES.—Y mae yn bleser genym gofnodi llwyddiant y rhai a ganlyn yn arholiadau y Tonic Solffa :— Intermediate Stage—Jane M. Davies, Hendy. Elementary—Lizzie A. Davies, Hendy; E. Thomas, Llysfaen; Judith Kent, Unity; Nancy Evans, Pwllglas; Sophia Jones, Pant-y-dderwen. Junior—Catherine Thomas, Talgrwn, a Tom Kent, Unity. Cawsant eu haddysgu gan Miss Evans, Ysgol y Cynghor, Llanwnen. Diolch iddi am ei hymdrech gyda'r plant.

CWMSYCHBANT.—Cynhaliwyd Cyfarfodydd Pregethu yng Nghapel-y-Cwm ar Sul, Gorffenaf yr ail, pan bregethwyd gan y Parchn. E. R. Dennis, Hen-dy-Cwrdd, Aberdar; E. T. Evans, Highland Place, a T. O. Williams, B.A., Llanbedr. Daeth cynulleidfaoedd lluosog iawn i'r tair oedfa, ac ymddangosai pob un fel pe wedi'i foddhau. Darparodd cynulleidfa Capel-y-Cwm yn helaeth ar gyfer pell ac agos, a mwynheid eu croeso caredig. Teimlem ein bod wedi cael gwledd ymhob ystyr—y pregethwyr ar eu goreu, y cantorion mewn hwyl, a'r cynulleidfaoedd yn astud. Ymwasgarwyd wedi treulio diwrnod da, gan benderfynu gwneuthur yr wyl eleni yn wyl flynyddol.

ABERYSTWYTH.—Da genym allu cofnodi llwyddiant ein cyfaill, Isaac E. Hopkin, o Drebanos, yn ei arholiadau ym Mhrifysgol Cymru. Mae wedi bod yn llwyddianus yn y tri gynygiodd. Gwelwn ei eisiau yma yn fawr, am ei fod bob amser mor ffyddlon, ac hyderwn y cawn ei weled yn ol eto rywbryd tua mis Hydref.—D.J.D.

CEFNCOED.—Dydd Llun, Gorphenaf 3, cynhaliwyd gwyl dê flynyddol yr Hen-dy-Cwrdd. Mae yr wyl hon, er ys blynyddau meithion bellach, yn sefydliad a edrychir yn mlaen tuag ati gan bawb o bob enwad yn y cylch hwn. Ac yr oedd yn achos llawenydd i'r eglwys weled y faith grynhoad eleni eto. Bu o leiaf bedwar cant o ddynion yn eistedd wrth y byrddau, yn mhlith y rhai oedd cyfeillion o Aberdar, Cwmbach, Dowlais, Merthyr, a mannau ereill, a dymuna'r eglwys ddiolch yn galonog i'r cyfryw gyfeillion am y gefnogaeth a'r parch a amlygasant eleni eto, fel yn y dyddiau gynt. Yr oedd yr hin yn dda, y bwyd yn flasus, a phawb a phob peth fel pe yn mynu gwneud yr wyl eleni yn fwy o lwyddiant nag erioed. Fuasai gofod yn gwahardd enwi yr holl ffyddloniaid a lafuriasant ar yr achlysur hwn. Digon yw dweyd nad oedd nemawr aelod o'r Hen-dy-Cwrdd na wnaeth ei ran i sicrhau llwyddiant i'r wyl.

ABERDAR.—Da oedd genym weled Mr. T. J. Lewis, mab Mr. a Mrs. Lewis Lewis, Hen-dy-Cwrdd, Aberdar, ar ei ymweliad cyntaf a'i gartref wedi ei ymuniad a'r fyddin. Cymerwyd mantais ar yr achlysur hwn i gyflwyno iddo Feibl—rhodd yr Ysgol Sul, o'r hon yr oedd ein brawd yn aelod ffyddlon. Cyflwynwyd y Beibl dros yr Ysgol gan y Gweinidog. Hefyd da iawn oedd genym weled ei fod wedi cael ei wneyd yn Lance-Corporal. Dengys hyn dyddordeb yn y gwaith a buchedd dda. Llwyddiant eto.

CONGL YR AWEN.

DEFOSIWN.

Gochel, Gristion! ddod i dy
Gweddi'n ysgafn ac yn hy',
Gâd ofalon byd o'th ol
  Pan at drothwy hwn y doi;
Dïosg bob meddyliau ffol
  Fel y gelli'n addas roi
Myfyrdodau dyfna'th fryd
I Greawdwr mawr y byd.

Gwylia, Gristion! ar dy droed,
Cysegredig iawn erioed
Ydyw'r deml ordeiniodd Duw
  Fel y fan i gwrdd a'i blant;
Gwybydd mai ffieidd-beth yw
  Calon oer a chynes fant;
Rhaid it' ddod yn ŵyl dy stâd
Os am weled gwên dy Dad.

Cofia, Gristion! nad oes le
Yma ond i bethau'r Ne';
Ofer at yr orsedd dêl
  Gwag philosophi a dysg;
Na thyrd yma os nad zêl
  Ty yr Arglwydd ynot lysg;
Ysbryd gwâr a chalon friw
Yw yr ebyrth gais dy Dduw.

Tyred, Gristion! tyr'd i'r deml
Gyda didwyll weddi seml
Calon ddrylliog ar dy fin;
  Ac yn wylaidd cymer sedd
Fel y caffot brofi'r gwin
  Bywiol sydd ar fwrdd y wledd;
Drwy bob ymarweddiad gwiw
Dyro barch i dŷ dy Dduw.

CLEDLYN.

CARU DUW AC NID EI OFNI.

(M.C.D.)

Ton—"Blaenwern," gan Mr. John Lewis.

Yn fynych dwedir yn fy nghlyw,
  Yn iaith yr oesau fu;
Rhaid iti ofni'r Arglwydd Dduw
  Cyn cael ei wenau cu;
Pan glywaf hyn fy mron dristâ,
  Yn syn gofynaf fi—
Pa fodd yr ofnaf Dad mor dda
  A thirion a Thydi?

Cydgan:

Dy garu wnaf tra bywyd gaf,
  A thrwy dy gymorth clau
I'th ddeddfau ufuddhaf.

Pa fodd yr ofnaf di, fy Nuw,
  A fuost drwy fy oes
Yn rhoddi nerth i'm enaid gwiw.
  A'm cynal dan bob croes;
Dduw'm tad a'm mam! Dy ofni Di
  Nis gallaf tra b'wyf byw;
Ond ceisio'th garu'n fwy, fwy cu—
  Fy nyled sanctaidd yw.

Cydgan: Dy garu wnaf, &c.

Yr unig ofn sydd arnaf fi
  Wrth deithio'r ddaear hon,
Yw ofn troseddu'th ddeddfau di,
  A phechu ger Dy fron;
Nis gallaf, Dad, Dy ofni Di,
  Ond ceisio'th garu wnaf
A chalon bur, nes yn Dy dŷ
  Dy dadol roesaw gaf.

Cydgan:

Dy garu wnaf tra bywyd gaf,
  A thrwy Dy gymorth clau,
I'th ddeddfau ufuddhaf.

E. CEREDIG JONES.

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.

NEW SERIES OF

Modern Handbooks of Religion

Cr. 8vo. 256 pages. Two Shillings each net.

Books Illustrative of the Principles and Faith of those who find the seat of Authority in Religion not in Church or Creed but in the Mind and Conscience and Experience of Mankind.

Volumes now ready.

Religion as affected by Modern Science and Philosophy. By Stanley A. Mellor, M.A., Ph.D.

Religion in Social and National Life. By H. D. Roberts.

The New Testament in the Light of Modern Knowledge. By H. Mc Lachlan, M.A., B.D.

Communion of Man with God. By R. Nicol Cross, M.A.

THE LINDSEY PRESS, 5, Essex St., Strand, London, W.C.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

Fruit Trees, Roses and Shrubs.

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s.; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Lacrosse.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., T. B. Taylor, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss C. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Feed Your Children

With WELSH PORRIDGE, made from

PURE WELSH OATMEAL.

The greatest MEDICAL EXPERTS say it is the most nourishing food for everybody.

Order to-day from the Manufacturers—

T. E. JONES & CO., LLANDYSSUL.

The London City and Midland Bank Limited,

— ESTABLISHED 1836. —

Subscribed Capital .. £22,947,804. Paid up Capital .. £4,780,792 : 10 : 0.

Reserve Fund .. £4,000,000.

LIABILITIES AND ASSETS, 31st DECEMBER, 1915.

	£	s.	d.
To Capital Paid up, viz. :—			
£2 10s. 0d. per Share on 1,912,317 Shares of £12 each	4,780,792	10	0
„ Reserve Fund	4,000,000	0	0
„ Dividend payable on 1st February, 1916	360,352	4	8
„ Balance of Profit and Loss Account	113,597	15	2
	9,254,742	9	10
„ Current, Deposit and other Accounts	147,750,762	0	6
„ Acceptances on account of Customers	9,157,601	11	9

	£	s	d.
By Cash in hand (including Gold Coin £7,000,000) and Cash at Bank of England	30,881,200	14	6
„ Money at Call and at Short Notice and Stock Exchange Loans ...	8,651,257	17	9
„ Investments :—			
War Loans, and other British Government Securities ...	33,946,384	8	2
Stocks Guaranteed by the British Government, &c.	481,040	5	8
British Railway Debenture and Preference Stocks	2,400,295	19	9
Colonial and Foreign Government Stocks and Bonds	962,062	7	6
Sundry Investments	1,039,650	15	7
„ Bills of Exchange	9,961,545	13	9
	88,323,438	2	8
„ Advances on Current Accounts, &c. ...	65,921,541	11	9
„ Liabilities of Customers for Acceptances as per contra	9,157,601	11	9
„ Bank Premises, at Head Office and Branches	2,760,464	15	11